BWYDO EU BYWYDAU

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pecyn Cymorth i Ysgolion

Cyfathrebu â rhieni am help ariannol gyda Hanfodion Ysgol, gan gynnwys Cinio Ysgol Am Ddim.

# Ein Hymagwedd



# Ein Hymagwedd

## Pwy/Beth?

Dyma becyn cymorth i helpu ysgolion cynradd i egluro i rieni a gofalwyr am yr help gyda chostau ysgol a allai fod ar gael iddynt - gan gynnwys y Grant Hanfodion Ysgolion a chyflwyno Cinio Ysgol Am Ddim i blant Cynradd.

## Pam?

Ar draws Cymru, nid yw llawer o rieni yn hawlio'r help gyda chostau ysgol a allai fod ar gael iddynt. I gydnabod y cynnydd mewn costau byw, rydym yn annog rhieni a gofalwyr i hawlio'r help i dalu am Hanfodion Ysgol.

Yn seiliedig ar ein canfyddiadau o grwpiau ffocws ar draws Cymru, rydym wedi canfod bod rhieni'n disgwyl clywed yn uniongyrchol gan eu hysgolion a'u Hawdurdodau Lleol am newidiadau i addysg eu plentyn.

## Pam nawr?

Mae angen i rieni a gofalwyr wybod beth sy'n newid a beth fydd hynny'n ei olygu i'w plentyn.

Ym mis Medi 2022, cyflwynwyd Cinio Ysgol Am Ddim i blant Cynradd ar draws Cymru, gan ddechrau gyda dysgwyr yn y Dosbarth Derbyn. Mae'r polisi'n rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a fydd yn gweld Cinio Ysgol am Ddim yn cael eu hymestyn i bob dysgwr ysgol gynradd erbyn Medi 2024.

## Sut?

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y wybodaeth gywir am y cymorth sydd ar gael, yn ogystal â sut a ble i wneud cais. Yn y pecyn cymorth hwn, fe welwch bopeth sydd ei angen arnoch i rannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr dysgwyr yn eich ysgol.

# Chwarae eich rhan

**Gallwch ein helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a gofalwyr yn eich ysgol neu leoliad.**

Rydym wedi creu banc o asedau parod y gallwch eu defnyddio ar sianeli cyfathrebu eich ysgol neu leoliad, boed yn gyfryngau cymdeithasol, apiau ysgol, e-byst, posteri o amgylch yr adeilad, neu faneri ar gatiau'r ysgol.

## Beth allwch chi ei wneud:

- Rhannu negeseuon ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol
- Argraffu posteri a'u harddangos o amgylch y mannau y mae rhieni a gofalwyr yn ymweld â nhw
- Ysgrifennu am Hanfodion Ysgol a chyflwyniad Cinio Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn eich cylchlythyr, neu ddefnyddio'r templedi a ddarperir
- Anfon negeseuon at rieni a gofalwyr dros e-bost, WhatsApp neu unrhyw sianeli cyfathrebu eraill a ddefnyddir, e.e. taflenni adref mewn bagiau
- Cynnal sesiwn 'Beth sydd angen i chi ei wybod am help ariannol ar gyfer Hanfodion Ysgol' gyda rhieni a gofalwyr

# Banc asedau / adnoddau

**Dyma bopeth sydd ei angen arnoch i ddechrau arni. Cliciwch ar y banc asedau isod i gyrchu a lawrlwytho asedau a thempledi.**

**Gweler y banc asedau yma**













*Efallai y bydd eich awdurdod lleol yn gallu helpu gyda chostau argraffu drwy eu ffi weinyddol ar gyfer Cinio Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd.

# Cyfrifon i'w dilyn

### Twitter
@LlC_Addysg / @WG_Education
@dechraucartref / @edubeginsathome
@HwbAddysg_Cymru

### Facebook
addysgcymru / educationwales
dechraucartref / beginsathome

### YouTube
Addysg Cymru / Education Wales

### Websites
gov.wales/education-changing
hwb.gov.wales

### Hashtags to Use
#BwydoEuBywydau / #FeedTheirFuture

# Negeseuon



# Ymadroddion allweddol i rieni a gofalwyr

**Dyma'r ymadroddion allweddol y mae'n rhaid eu hystyried trwy gydol ein hysgrifennu.**

### Cinio Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd

Mae ysgolion yn cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd. Y nod yw bod pob plentyn ysgol gynradd yn cael cinio am ddim mewn ysgolion erbyn mis Medi 2024. Am ddyddiadau mwy penodol, dylai rhieni holi eu hysgol neu awdurdod lleol ynghylch eu cynlluniau cyflwyno.

### Yn gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim

**Yn yr achos yma, mae angen i chi wirio a ydych yn gymwys i gael Cinio Ysgol am Ddim waeth beth fo'r broses o gyflwyno Cinio Ysgol am Ddim mewn Ysgolion Cynradd — os yn gymwys, gallech chi a'ch ysgol hefyd dderbyn cyllid ychwanegol.**

### Grant Hanfodion Ysgol

Gallai fod help ychwanegol ar gael i'r rheini sy'n cael, neu'n gymwys i gael, Cinio Ysgol am Ddim ar hyn o bryd. Gall Hanfodion Ysgol helpu i dalu am bethau fel gwisg ysgol, esgidiau, deunydd ysgrifennu, cit chwaraeon ac offer arall.

O fis Gorffennaf 2023, y lwfans yw £125 fesul dysgwr a hyd at £200 ar gyfer y rhai sy'n mynd i Flwyddyn 7 i gydnabod costau ychwanegol dechrau ysgol uwchradd.

# Ymadroddion allweddol i rieni a gofalwyr

**Dyma rai negeseuon allweddol a fydd yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall mwy am y Grant Hanfodion Ysgol, a'r broses o gyflwyno Cinio Ysgol am Ddim mewn Ysgolion Cynradd.**

- Yng Nghymru, nid yw llawer o rieni yn hawlio'r cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo i gael help gyda Hanfodion Ysgol.
- Os yw eich plentyn yn derbyn Cinio Ysgol am Ddim ar hyn o bryd, efallai y bydd gennych hawl hefyd i help ychwanegol ar gyfer Hanfodion Ysgol.
- Mae Hanfodion Ysgol yn helpu gyda chostau fel gwisg ysgol, esgidiau, cit chwaraeon, deunydd ysgrifennu ac offer arall.
- Mae'r polisi Cinio Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a fydd yn gweld Cinio Ysgol Am Ddim yn cael eu hymestyn i bob dysgwr ysgol gynradd dros gyfnod y cytundeb.
- Bydd Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd yn cael ei gynnig i bob plentyn ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024 — holwch eich Awdurdod Lleol neu'ch ysgol am eu cynlluniau cyflwyno.
- Os ydych yn derbyn rhai budd-daliadau penodol, ac yn cael Cinio Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, gallech gael Cinio Ysgol Am Ddim a gwneud cais ar wahân drwy eich Awdurdod Lleol. Gall Cinio Ysgol Am Ddim roi mynediad at y Grant Hanfodion Ysgol a chyllid ychwanegol ar gyfer eich ysgol.
- Os yw'ch plentyn mewn grŵp blwyddyn nad yw'n cael cynnig Cinio Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd eto, efallai y gallai dal gael Cinio Ysgol Am Ddim a help ychwanegol trwy'r Grant Hanfodion Ysgol. Mae'n hollbwysig eich bod yn gwneud cais oherwydd bydd yr ysgol yn elwa hefyd. Ar gyfer pob dysgwr sy'n gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim, bydd yr ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol tuag at gostau prynu offer ac adnoddau ychwanegol.

# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol: negeseuon cyffredinol

**Y nod:**
Rhoi gwybod i rieni a gofalwyr bod help ar gael iddynt drwy Ginio Ysgol am Ddim.

Dyma rai negeseuon parod y gallwch eu defnyddio ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol.

| Facebook / Instagram / Twitter |
|---|
| Peidiwch â cholli allan ar Ginio Ysgol Am Ddim i'ch plentyn. Ewch i'r wefan i weld a allech chi hawlio help: **[DOLEN ALI]** |
| Ydych chi wedi hawlio help? Gallai eich plentyn gael Cinio Ysgol am Ddim a help gyda Hanfodion Ysgol. I ddysgu mwy: **[DOLEN ALI]** |
| Os yw eich plentyn yn gymwys i gael Cinio Ysgol am Ddim, gallech hefyd fod â hawl i hyd at £200 o arian ychwanegol ar gyfer Hanfodion Ysgol. Gallai hefyd olygu cyllid ychwanegol i'ch ysgol. |
| Gall costau ysgol fynd yn ddrud ond mae help ar gael ar gyfer Hanfodion Ysgol a Chinio Ysgol am Ddim. Hawliwch help yma: **[DOLEN ALI] #BwydoEuBywydau** |
| Erbyn Medi 2024, gall pob plentyn mewn ysgol gynradd fwynhau Cinio Ysgol Am Ddim. Gallwch hefyd gael help gyda chostau ysgol eraill. I ddarganfod mwy: **[DOLEN ALI]** |

# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol: yn benodol i'ch ysgol neu leoliad

**Y nod:**
Codi ymwybyddiaeth rhieni am yr help sydd ar gael drwy'r Grant Hanfodion Ysgolion.

Gall y manylion amrywio, felly dyma rai enghreifftiau i'ch rhoi ar ben ffordd. Addaswch negeseuon i'w teilwra i'ch ysgol neu leoliad.

| Facebook / Instagram / Twitter |
| --- |
| Ydych chi wedi hawlio help? Os oes gan eich plentyn hawl i ginio ysgol am ddim, efallai y bydd mwy o help ar gael drwy'r Grant Hanfodion Ysgol. Ewch i: **[DOLEN ALl]** |
| Gall costau ysgol fynd yn ddrud. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn cynnig help gyda Hanfodion Ysgol i helpu gyda chost gwisg ysgol, cit, offer a mwy. Ewch i: **[DOLEN ALl]** |
| Os allai eich plentyn gael Cinio Ysgol Am Ddim, efallai y gallai **[YSGOL]** gael cyllid ac adnoddau ychwanegol. I ddysgu mwy: **[DOLEN ALl]** |
| Mae **[YSGOL]** yn annog pob rhiant a gofalwr i hawlio help gyda chostau ysgol – hyd at £200 os ydych yn gymwys. Gallai hefyd olygu cyllid ychwanegol i'ch ysgol. I ddysgu mwy: **[DOLEN ALl]** |
| Bydd **[YSGOL]** yn cynnig Cinio Ysgol Am Ddim i bob plentyn hyd at **[NODWCH Y FLWYDDYN]. [DOLEN ALl]** |

# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol: yn benodol i'ch ysgol neu leoliad

**Y nod:**
Defnyddiwch sianeli mwy uniongyrchol fel WhatsApp neu apiau sy'n unigryw i'ch ysgol neu leoliad

Dyma rai negeseuon y gallwch eu rhannu.

| WhatsApp / Apiau Ysgol |
|---|
| Gall y Grant Hanfodion Ysgol helpu i dalu am bethau fel gwisg ac esgidiau ysgol, cit chwaraeon ac offer arall. Os yw'ch plentyn yn gymwys i gael Cinio Ysgol am Ddim, efallai y gallai cael cyllid ychwanegol drwy'r Grant Hanfodion Ysgol. Hawliwch help: **[DOLEN ALl]** |
| Rydym wedi bod yn brysur yn paratoi ein ceginau ar gyfer cyflwyno Cinio Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Bydd pob plentyn yn **[NODWCH Y FLWYDDYN]** yn **[YSGOL]** yn cael cynnig Cinio Ysgol Am Ddim. Gallwch ddarganfod mwy yma: **[DOLEN ALl]** |
| Mae cinio ysgol yn hybu bwyta'n iach, yn cynyddu'r amrywiaeth o fwyd y gallai eich plentyn ei fwyta, a gall wella ymddygiad a sgiliau cymdeithasol. Bydd Cinio Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn cael ei gynnig i bob plentyn erbyn Medi 2024. **[DOLEN ALl]** |
| A oes gennych unrhyw gwestiynau am Ginio Ysgol Am Ddim neu'r Grant Hanfodion Ysgol? Cysylltwch â **[PERSON a CHYSWLLT]** Gallwch ddarganfod mwy yn **[DOLEN ALl]** |

**Gellir dod o hyd i asedau gweledol cynorthwyol yma.**

# Templed cylchlythyr / e-bost

**Ystyriwch y pynciau canlynol i'w cynnwys mewn diweddariadau e-bost i rieni a gofalwyr.**

'Sut gall rhieni/gofalwyr yn eich ysgol hawlio Cinio Ysgol Am Ddim, a help arall gyda chostau Hanfodion Ysgol?'

'Pam mae'n bwysig i blant gael pryd o fwyd yn yr ysgol? E.e. manteision ar gyfer dysgu, llesiant ac ymddygiad.'

'Sut bydd y broses o gyflwyno Cinio Ysgol Am Ddim yn parhau yn eich ysgol dros y rai blynyddoedd nesaf?'

'Sut mae help gyda hanfodion a chinio ysgol wedi helpu dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn eich ysgol?'

Annwyl Riant/Gofalwr,

Yng Nghymru, nid yw llawer o rieni yn manteisio ar hawlio Cinio Ysgol am Ddim. Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch atgoffa o'r help a allai fod ar gael i chi.

Mae cinio ysgol yn hybu bwyta'n iach, yn cynyddu'r amrywiaeth o fwyd y gallai eich plentyn ei fwyta, a gall wella ymddygiad a sgiliau cymdeithasol. Os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol, neu os yw eich amgylchiadau wedi newid, gwiriwch a yw eich plentyn yn gymwys trwy **[URL YR AWDURDOD LLEOL]**. Mae'r ffurflen yn fyr a dim ond yn cymryd ychydig funudau i'w chwblhau.

Os yw'ch plentyn eisoes yn cael Cinio Ysgol am Ddim, efallai y bydd hyd at £200 ar gael ar gyfer Hanfodion Ysgol. Mae hyn yn helpu gyda chostau Hanfodion Ysgol fel gwisg ysgol ac offer i wneud yn siŵr ei fod yn barod ar gyfer y diwrnod ysgol.

Mae ysgolion wedi dechrau cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd. Erbyn Medi 2024, gall pob plentyn mewn ysgol gynradd fwynhau Cinio Ysgol Am Ddim. Dysgwch fwy yma **[URL YR AWDURDOD LLEOL]**.

Sylwer, os ydych yn gymwys i gael rhai budd-daliadau penodol, bydd angen i rieni wneud cais ar wahân am y Grant Hanfodion Ysgol i gael mynediad at yr help ychwanegol. Gallai hyn olygu cyllid ychwanegol i'ch ysgol chi hefyd.

Cofion cynnes

# Rhestr wirio

- [ ] Dilynwch ein sianeli cyfryngau cymdeithasol
- [ ] Rhannu negeseuon allweddol ar gyfryngau cymdeithasol a sianeli rhieni
- [ ] Creu a rhannu cynnwys gan ddefnyddio'r hashnod #BwydoEuBywydau
- [ ] Lawrlwythwch a rhannwch ddeunyddiau print
- [ ] Siaradwch â rhieni a gofalwyr am yr hyn y mae angen iddynt ei wybod

BWYDO EU BYWYDAU

BWYDO EU BYWYDAU

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diolch.